

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Llun, 20 Ionawr 2014

Amser:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Tai (Cymru)

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio
Ceri Breeze, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Polisi Tai, Llywodraeth Cymru;
Neil Buffin, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=5195>

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 - 3)

CLA(4)-02-14 - Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

[Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol](#)

CLA342 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 10 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 12

Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 13 Ionawr 2014

CLA343 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 10 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 12 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 29 Ionawr 2014

CLA344 – Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 10 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 12 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 7 Ionawr 2014

CLA345 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 12 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 16 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 10 Ionawr 2014

CLA346 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 18 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 19 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 12 Ionawr 2014

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA347 – Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'i gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'i gosodwyd ar: Dyddiad heb ei nodi; Yn dod i rym ar: 28 Mawrth 2014

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA348 – Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd

(Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 (Tudalennau 4 - 27)

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 27 Rhagfyr 2013; Fe'i gosodwyd ar: 31 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 1 Ionawr 2014

CLA(4)-02-14 - Papur 2 - Rheoliadau

CLA(4)-02-14 - Papur 3 - Memorandwm Esboniadol

CLA(4)-02-14 - Papur 4 - Adroddiad

CLA(4)-02-14 - Papur 5 - Llythyr gan y Gweinidog

5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 28 - 31)

CLA(4)-02-14 - Papur 6 - Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU. Adolygu'r Canlyniadau.

CLA(4)-02-14 - Papur 6A -Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at Brif Weinidog Cymru

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

Llythyr gan y Gweinidog ynghylch Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Tudalennau 32 - 35)

CLA(4)-02-14 - Papur 7 - Llythyr gan y Gweinidog ynghylch Rheoliadau'r Dreth Gyngor, 13 Ionawr 2014

Trafod Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd (Tudalennau 36 - 41)

CLA(4)-02-14 - Papur 8 - Papur Cefndirol

Eitem 3

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-02-14: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

CLA342 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru)
(Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am waharddiadau cyfnod penodol a'r rhesymau dros waharddiadau yn cael eu hadrodd yn ystod y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion.

CLA343 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2)
2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 ('Rheoliadau 1996') sy'n nodi'r prawf moddion ar gyfer penderfynu swm y grant y gellir ei dalu gan awdurdodau tai lleol o dan Ran 1 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau 1996 er mwyn ymdrin ag effaith taliad annibyniaeth y lluoedd arfog ar brofion modd ar gyfer cael grant cyfleusterau i'r anabl.

CLA344 – Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys"). Bydd y Tribiwnlys yn cynnwys Llywydd, aelodau â

chymwysterau cyfreithiol ac aelodau lleyg. Mae adran 120 o'r Mesur yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau'r Tribiwnlys.

Mae paragraff 9(1) o Atodlen 11 i'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch penodi aelodau'r Tribiwnlys (y cyfeirir atynt yn y Mesur fel "rheoliadau penodi").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru wrth wneud penodiadau i'r Tribiwnlys.

CLA345 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo yng Nghymru fel arfer ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â blynyddoedd academiaidd sy'n dechrau ar, neu ar ôl, 1 Medi 2013. Maent yn cydgrynhai, gyda rhai newidiadau, Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2012 ('Rheoliadau 2012'). Mae Rheoliadau 2012 wedi eu dirymu yn unol â Rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn ac maent yn parhau i fod yn gymwys i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â blwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar, neu ar ôl, 1 Medi 2013 ond cyn 1 Medi 2014.

CLA346 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) (Diwygio) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 225/2012 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 183/2005 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cymeradwyo sefydliadau i roi ar y farchnad, at ddefnydd bwyd anifeiliaid, gynhyrchion sy'n deillio o olewau llysiâu a brasterau cymysg ac o ran y gofynion penodol ar gyfer cynhyrchu, storio, cludo a phrofi lefelau diocsin olewau, brasterau a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt (OJ Rhif L77, 2012/03/16, t.1).

CLA347 – Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Canfod Twyll) (Cymru) 2014¹

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer pwerau i fynnu cael gwybodaeth er mwyn ymchwilio i dwyll tai. Gall swyddogion awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol i fusnesau fel banciau a chwmnïau cyfleustodau ddarparu gwybodaeth at ddiben ymchwilio i dwyll tai.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2013 Rhif (Cy.)

AMAETHYDDIAETH

Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio nifer o Reoliadau o ganlyniad i Reoliad (EU) 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007 ("Rheoliad (EU) 2013"). Mae Rheoliad (EU) 2013 yn diddymu (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a therfynol a bennir yn Erthygl 230) y Trefniant Cyffredin Sengl blaenorol ar gyfer marchnadoedd – Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ar 22 Hydref 2007 ("Rheoliad y Cyngor 2007") a oedd yn sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer marchnadoedd amaethyddol ac yn ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig. Mae'r darpariaethau trosiannol a bennir yn Erthygl 230 yn darparu y bydd Erthyglau penodol o Reoliad y Cyngor 2007 yn parhau'n gymwys hyd nes daw rheolau marchnata cyfatebol a wneir o dan Reoliad (EU) 2013 ("rheolau marchnata cyfatebol") i rym.

Diwygir y Rheoliadau canlynol—

- (a) Diwygir Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 2).
- (b) Diwygir Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 3).
- (c) Mae Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi

Erthygl 114(2) o Reoliad y Cyngor 2007 (safonau marchnata ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth). Mae Erthygl 230(1)(c) yn darparu y bydd Erthygl 114 yn parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Diwygir Rheoliadau 2010 i ddisodli'r cyfeiriad yn rheoliad 3 (gwerthu neu ddanfon llaeth a defnyddio disgrifiad gwerthu) at Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor 2007, gan gyfeiriad at Ran IV o Atodiad VII (llaeth ar gyfer ei yfed gan bobl) i Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 4).

- (d) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi safonau marchnata UE mewn perthynas â wyau deor, cywion dofednod ac wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta. Mae Erthygl 230(1)(c) yn darparu y bydd Erthygl 116 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw yn parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2010 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 5).
- (e) Diwygir Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 6).
- (f) Diwygir Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2008 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 7).
- (g) Mae Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi safonau marchnata mewn perthynas â chig dofednod. Bydd Erthygl 116 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw'n parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2011 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 8).
- (h) Mae Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008 yn creu'r troseddau o fethu â chydymffurfio â darpariaethau yn Rheoliad y Cyngor 2007 mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer brasterau a disgrifiadau o laeth a chynhyrchion llaeth (Erthyglau 115 ac 114 yn eu trefn). Mae Erthygl 230(1)(c) o

Reoliad (EU) 2013 yn darparu y bydd Erthyglau 114 a 115 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw'n parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2008 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 9).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2013 Rhif (Cy.)

AMAETHYDDIAETH

**Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin
Sengl ar gyfer Marchnadoedd
(Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru)
2013**

Gwnaed 27 Rhagfyr 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 31 Rhagfyr 2013

Yn dod i rym 1 Ionawr 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2), ac y maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(3).

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(2) O.S.2010/2690

(3) O.J. L 347, 20.12.2013. t.1.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn dwyn yr enw Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013;
- (b) yn gymwys o ran Cymru; ac
- (c) yn dod i rym ar 1 Ionawr 2014.

Diwygio Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor” (“*Council Regulation*”) ac ar ôl y diffiniad o “mochyn glân” mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;”

(3) Yn rheoliad 2(3) (dehongli) hepgorer is-baragraff (b).

(4) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (darpariaethau Ewropeaidd: carcasau buchol)—

- (a) yng ngholofn (1) o'r tabl, yn lle “Rheoliad y Cyngor”, rhodder “Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) yng ngholofn 2 o'r tabl, yn lle “Atodiad V”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Atodiad IV”.

(5) Yn y tabl yn Atodlen 2 (darpariaethau Ewropeaidd: carcasau moch)—

- (a) yng ngholofn (1), yn lle “Rheoliad y Cyngor”, rhodder “Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) yng ngholofn (2), yn lle “Atodiad V”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Atodiad IV”.

(1) O.S. 2011/1826 (Cy. 198) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/948 (Cy.125).

Diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(1) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2(1)(c) (yr awdurdod cymwys) rhodder—

“(c) Erthygl 78 o Reoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a Rhan I o Atodiad VII iddo, a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”.

(3) Yn lle rheoliad 4(1)(c) (tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd) rhodder—

“(c) Y darpariaethau canlynol o Reoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd—

(i) Erthygl 78 a pharagraff II o Ran I o Atodiad VII (dosbarthu yn y lladd-dy);

(ii) Erthygl 78 a pharagraff III o Ran I o Atodiad VII (disgrifiadau gwerthu);

(iii) Erthygl 78 a pharagraff IV o Ran I o Atodiad VII (gwybodaeth orfodol ar y label);

(iv) Erthygl 78 a pharagraff V o Ran I o Atodiad VII (cofnodi).”.

(4) Yn rheoliad 4(2) (gwybodaeth sy’n ofynnol mewn perthynas â chig heb ei ragbecynnu) yn lle “paragraff IV(2) o Atodiad X1a i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007” rhodder “pwynt IV(2) o Ran I o Atodiad VII i Reoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC)

(1) O.S. 2011/991 (Cy.145)

Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd”.

Diwygio Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010

4.—(1) Diwygir Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o “yr Atodiad” (“*the Annex*”);

(b) yn y diffiniadau o “llaeth (“*milk*”) a “llaeth yfed” (“*drinking milk*”), yn lle “o'r Atodiad” rhodder “o Ran IV”.

(c) ar ôl y diffiniad o “llaeth yfed” mewnosoder—

“ystyr “Rhan IV” (“*Part IV*”) yw Rhan IV o Atodiad VII i Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.”.

(3) Yn rheoliad 2(2) (dehongli), ar ôl “Rheoliad y Cyngor”, ym mhob man lle mae'n digwydd, mewnosoder “neu Ran IV”.

(4) Hefgorer rheoliad 2(3) (dehongli).

(5) Yn rheoliad 3 (gwerthu neu ddanfôn llaeth a defnyddio disgrifiad gwerthu) yn lle “o'r Atodiad fel y'u darllenir ynghyd â phwynt III o'r Atodiad” rhodder “o Ran IV fel y'u darllenir ynghyd â phwynt III o Ran IV”.

(6) Hefgorer rheoliad 4 (mewnforio cynhyrchion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd i'w gwerthu fel llaeth yfed).

(7) Yn rheoliad 5(3) (gorfodi), yn lle “neu'r Atodiad” rhodder “neu Ran IV”.

(8) Yn rheoliad 6 (tramgwyddau a chosbau), hepgorer “neu 4”.

Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

5.—(1) Diwygir Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(2) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (dehongli), ar ôl y diffiniad o “Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003” mewnosoder—

(1) O.S. 2010/1492 (Cy.135)

(2) O.S. 2010/1671 (Cy. 158).

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;”.

(3) Yn rheoliad 3(3) (dehongli) yn lle “Rhan A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO” rhodder “Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

(4) Yn rheoliad 3(5)(a) a (6)(a) (dehongli), ar ôl “Rheoliad Sengl CMO” mewn osoder “neu Reoliad (EU) 2013”.

(5) Yn rheoliad 8 (cymhwysio Rhan 3)—

- (a) ym mharagraffau (1) a (2)(a), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; a
- (b) ym mharagraff (2)(b), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO, i werthu wyau y mae pwynt I(1) o Ran A o Atodiad XIV” rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013, i werthu wyau y mae pwynt I(1) o Ran VI o Atodiad VII”.

(6) Yn rheoliad 11(1) a (2) (rhanddirymidiadau sy'n ymwneud â marcio wyau), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

(7) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (darpariaethau UE ynglŷn ag wyau deor a chywion y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd)—

- (a) yn y pennawd o dan “Rhan 1”, mewnosoder ar y diwedd “neu'r Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) yn mhenawdau colofnau 1 a 2, ar ôl “CMO” rhodder “neu'r Rheoliad (EU) 2013”;
- (c) yng ngholofn 1, yn lle “Erthygl 113(3), yr is-baragraff cyntaf” rhodder “Erthygl 74 o Reoliad (EU) 2013”;
- (d) yng ngholofn 1 ar ôl “Atodiad XIV”, ym mhob man lle mae'n digwydd, mewnosoder “i'r Rheoliad Sengl CMO”.

(8) Yn Atodlen 2 (darpariaethau UE cyffredinol ynglŷn ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta, y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd)—

- (a) yn lle Rhan 1 (darpariaethau'r Rheoliad Sengl CMO) rhodder—

“PART 1

DARPARIAETHAU RHEOLIAD (EU)
2013

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Y ddarpariaeth berthnasol o Reoliad (EU) 2013</i>	<i>Darpariaethau i'w darllen gyda darpariaethau Rheoliad (EU) 2013 a grybwyllir yng ngholofn 1</i>	<i>Y pwnc</i>
Erthygl 74 i'r graddau y mae'n ymwneud â marchnata wyau	Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Gwaharddiad ar farchnata wyau ac eithrio yn unol â'r safonau marchnata a osodir yn Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008.
Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII	Erthygl 2(1) a (4) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Graddio ansawdd wyau dosbarth A (neu ffres) neu wyau dosbarth B.
Pwynt II(2) o Ran VI o Atodiad VII	Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Graddio pwysau wyau dosbarth A.
Pwynt II(3) o Ran VI o Atodiad VII		Gwaharddiad ar gyflenwi wyau dosbarth B ac eithrio i'r diwydiant bwyd a diwydiant nad yw'n ddiwydiant bwyd.
Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII,	Erthyglau 9(1) ac 11 o Reoliad y	Marcio wyau dosbarth A.

yr is-baragraff cyntaf	Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	
Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail is-baragraff	Erthyglau 9, 10 ac 11 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, paragraffau (a) a (b) o'r ail is-baragraff o bwynt 2 o Ran D o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 a rheoliad 11(1)	Marcio wyau dosbarth B.
Pwynt III(2) o Ran VI o Atodiad VII	Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013	Y man lle caiff wyau eu marcio.
Pwynt III(3) o Ran VI o Atodiad VII, yr is-baragraff cyntaf	Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII a'r ail is-baragraff o bwynt III(3) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a rheoliad 11(2)	Marcio wyau a werthir gan gynhyrchydd i'r cwsmer terfynol mewn marchnad gyhoeddus leol.
Erthyglau 75(2) a (3) o Reoliad (EU) 2013	Erthygl 30(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Marcio wyau a fewnforir o drydedd wlad pan fo gwarantau digonol fod y rheolau a gymhwysir mewn perthynas â'r wyau hynny yn y drydedd wlad sydd dan sylw yn gyfwerth â deddfwriaeth UE.
Erthyglau 75(2) a (3) o Reoliad (EU) 2013	Erthyglau 11, 30(2) a (3) o Reoliad y Comisiwn	Marcio wyau a fewnforir o drydedd wlad pan nad oes

	(EC) Rhif 589/2008	gwarantau digonol fod y rheolau a gymhwysir mewn perthynas â'r wyau hynny yn y drydedd wlad sydd dan sylw yn gyfwerth â deddfwriaeth UE.”
--	-----------------------	---

(b) yn y tabl yn Rhan 2 (darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (EC) 589/2008)—

- (i) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt II(1) o Ran A o Atodiad XIV, y mewnnoliad cyntaf, i'r Rheoliad Sengl CMO”, rhodder “Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII, y mewnnoliad cyntaf, i Reoliad (EU) 2013”, ac yn lle “Pwynt II(1) o Ran A of Atodiad XIV, yr ail fewnnoliad, i'r Rheoliad Sengl CMO”, rhodder “Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail fewnnoliad, i Reoliad (EU) 2013” ;
- (ii) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt II(2) o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO” rhodder “Pwynt II(2) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”;
- (iii) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt III(1) o Ran A o Atodiad XIV, yr ail is-baragraff, i'r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Pwynt III(2) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail is-baragraff, i Reoliad (EU) 2013”;
- (iv) mewn perthynas â'r cofnod ar gyfer Erthygl 30(3) yng ngholofn 2 hepgorer “pwynt IV(3) o Ran A o Atodiad XIV”;

(9) Yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 3 (rheolaethau cymunedol ynglŷn ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta, mewn perthynas â *Salmonella*, y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd), yn lle “Erthyglau 113(3) a 116 o'r Rheoliad Sengl CMO a Rhan A o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw” rhodder “Erthygl 74 a Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

6.—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2) (dehongli)—

- (a) yn y diffiniad o “rheolau marchnata’r UE” (“*EU marketing rules*”), yn lle “i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy’n cynnwys y rheolau sy’n ymwneud â’r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “i Reoliad (EU) 2013, ac sy’n cynnwys y rheolau sy’n ymwneud â’r safonau hynny a geir yn Erthyglau 74, 75 a 76 o Reoliad (EU) 2013”;
- (b) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor 1234/2007” (“*Council Regulation 1234/2007*”);
- (c) yn y diffiniad o “safon farchnata gyffredinol” (“*general marketing standard*”) yn lle “Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007” rhodder “Erthygl 76(1) o Reoliad (EU) 2013”;
- (d) yn y diffiniad o “cynnyrch garddwriaethol” (“*horticultural produce*”), yn lle “Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Reoliad (EU) 2013”;
- (e) ar ôl y diffiniad o “rheolau marchnata’r UE” (“*EU marketing rules*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”;
- (f) yn y diffiniad o “safonau marchnata penodol” (“*specific marketing standards*”) yn lle “Erthygl 113(1)(b) o Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Erthygl 75(1)(b) o Reoliad (EU) 2013”.

(3) Yn rheoliad 2(3) (dehongli), yn lle “Rheoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Rheoliad (EU) 2013”.

(1) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/2486 (Cy.270)

Diwygio Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

7.—(1) Diwygir Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) yn y diffiniad o “cymorth Cymunedol” (“*Community aid*”) yn lle “Erthygl 102(1) o Reoliad y Cyngor” rhodder “Erthygl 26(1) o Reoliad (EU) 2013”;
- (b) yn y diffiniad o “cymorth gwladol” (“*national aid*”) yn lle “Erthygl 102(2) o Reoliad y Cyngor” rhodder “Erthygl 217 o Reoliad (EU) 2013”;
- (c) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”);
- (d) ar ôl y diffiniad o “y rheolau Cymunedol” (“*the Community rules*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd”.

Diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011

8.—(1) Diwygir Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011(2) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (cymhwyso'r Rheoliadau i gig dofednod)—

- (a) yn lle “ym mhwynt I(1) o Ran B o Atodiad XIV i'r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “ym mhwynt I o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; a
- (b) yn lle “o'r Rhan honno o'r Atodiad hwnnw i'r Rheoliad hwnnw” rhodder “o Ran B o Atodiad XIV i'r Rheoliad CMO Sengl”.

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) ym mharagraff (1)—
 - (i) yn y diffiniad o “darpariaeth cig dofednod Ewropeaidd” (“*European poultrymeat provision*”), ar ôl “Rheoliad

(1) O.S. 2008/2141 (Cy.190), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/108 (Cy. 21)

(2) O.S. 2011/1719 (Cy. 195)

CMO Sengl” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”;

(ii) yn lle’r diffiniad o “cig dofednod” (“*poultrymeat*”) rhodder—

“ mae i “cig dofednod” (“*poultrymeat*”) yr ystyr a roddir i “*poultrymeat*” gan bwynt II(1) o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013;”; a

